



ANNUAL REPORT

 Gwynedd a Môn
age Cymru



2024 - 2025

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

RHAGYMADRODD

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cyflwyno eu hadroddiad ynghyd â chyfrifon Age Cymru Gwynedd a Môn am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025. Mae'r adroddiad yn disgrifio amcanion, gweithgareddau, llwyddiannau, perfformiad ariannol, llywodraethu, a phrif risgiau'r sefydliad.

GWEITHGAREDDAU A LLWYDDIANNAU YN 2024/25

Yn ystod y flwyddyn, darparodd yr elusen ystod eang o wasanaethau i ddiwallu anghenion pobl hŷn yng Ngwynedd ac Ynys Môn.

Prif uchafbwyntiau:

Parhad gwasanaethau gofal personol a alluogodd gwsmeriaid i aros yn eu cartrefi.

Codi ymwybyddiaeth a defnydd cynyddol o wasanaethau gwybodaeth / cyngor, yn enwedig mewn perthynas â'r cynnydd yng nghostau byw.

Digwyddiadau a chlybiau cymunedol i leihau unigrwydd cymdeithasol.

Cydweithio gyda llywodraeth leol a phartneriaid i ddylanwadu ar bolisi a sicrhau darpariaeth gyfeillgar i bobl hŷn mewn cynllunio lleol.



Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Mae Ymddiriedolwyr yn gyfrifol o dan ddogfennau llywodraethu'r elusen am:

- gosod y cyfeiriad strategol;
- sicrhau bod yr elusen yn gweithredu yn unol â'i hamcanion elusennol;
- goruchwyllo materion ariannol;
- sicrhau bod yr elusen yn cael ei llywodraethu'n dda, yn gyfreithlon, ac yn gweithredu gyda thryloywder;
- paratoi datganiadau ariannol blyneddol yn unol â chyfraith y DU a safonau cyfrifyddu.

CENHADAETH AC AMCANION

Amcan Age Cymru Gwynedd a Môn yw cefnogi pobl 50+ oed yng Ngwynedd ac Ynys Môn, gan eu galluogi i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi a chymryd rhan lawn yn eu cymunedau.

Prif feysydd gwasanaeth:

- Gwybodaeth a chynghor (budd-daliadau, tai, hawliau)
- Gwasanaethau personol / gofal cartref
- Cynhwysiant cymdeithasol (clybiau, digwyddiadau, allgymorth)
- Mentrau llesiant

CYNLLUNIAU AR GYFER Y CYFNOD I DDOD – 2025/2026

Gan edrych ymlaen, mae'r Ymddiriedolwyr yn ymrwymedig i adeiladu ar ein sylfeini cadarn ac ymateb i anghenion newidiol pobl hŷn ar draws Gogledd Cymru.

Prif flaenoriaethau:

- Ehangu gwasanaethau i ymateb i effaith costau byw, gan gynnig mwy o gymorth mewn ynni, tai, a chynghor lles.
- Cynyddu capasiti gwasanaethau gofal cartref wrth i'r galw dyfu.
- Archwilio ffyrdd pellach o allgymorth digidol a chefnogaeth bell.
- Archwilio tŵf daearyddol: Am y tro cyntaf, bydd Age Cymru Gwynedd a Môn yn dechrau darparu gwasanaethau yng Conwy, gan ymestyn ein cyrhaeddiad y tu hwnt i Wynedd ac Ynys Môn, fel bod pobl hŷn, mewn ardaloedd cyfagos hefyd yn gallu elwa ar ein harbenigedd a'n cefnogaeth.
- Cryfhau partneriaethau cymunedol ac eiriolaeth i ddylanwadu ar bolisi lleol a chenedlaethol sy'n effeithio ar bobl hŷn.



STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLAETH

Mae Age Cymru Gwynedd a Môn yn elusen leol
(Rhif Elusen: 1143587).

Caiff yr elusen ei llywodraethu gan ei Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithas. Caiff ymddiriedolwyr eu recriwtio i sicrhau cydbwysedd o sgiliau a phrofiad mewn meysydd megis darparu gofal, cyllid, gwasanaethau cymunedol, a chydymffurfio cyfreithiol / rheoleiddiol.

Cynhelir cyfarfodydd Ymddiriedolwyr rheolaidd i oruchwyllo'r cyfeiriad strategol, polisiau, rheoli risgiau, a goruchwyliaeth ariannol.



ADOLYGIAD ARIANNOL

POLISI CRONFEYDD WRTH GEFN

Polisi Bwrdd Ymddiriedolwyr Age Cymru Gwynedd a Môn yw bod cronfeydd diamod, nad ydynt wedi'u dynodi at ddefnydd penodol, yn cael eu cynnal ar lefel sy'n cyfateb i rhwng tri a chwe mis o wariant.

Mae cronfeydd wrth gefn yr elusen wedi'u defnyddio yn ystod y blynyddoedd diwethaf i fuddsoddi ym mherchnogaeth adeiladau'r elusen, a fydd yn y tymor hwn yn darparu incwm a sefydlogrwydd i'r elusen.

Ystyrir gan yr ymddiriedolwyr y bydd cronfeydd wrth gefn ar y lefel hon yn sicrhau y gallant, pe bai gostyngiad sylweddol mewn cyllid, barhau â'u hamcanion elusennol wrth ystyried ffyrdd o godi cyllid ychwanegol.

Nod yn y dyfodol fydd cynyddu argaeledd cronfeydd wrth gefn arian parod yn y banc i alluogi ymateb i unrhyw newidiadau mewn cyllid.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi asesu'r prif risgiau sy'n wynebu'r cwmni elusennol, ac maent yn fodlon fod systemau ar waith i liniaru'r risgiau hynny.

PRIF RISGIAU

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi nodi nifer o risgiau ac yn eu rheoli'n rhagweithiol:

RISG LLINIARU

Ansefydlogrwydd cyllido (newidiadau grantiau / contractau)
Amrywio ffrydiau incwm; cynnal perthnasau gyda chyllidwyr;
cyllidebu gofalus.

Cynydd costau (staff, cyflenwadau, cyfleustodau) Adolygiadau rheolaidd o gontractau a chaffael; chwilio am effeithlonrwydd.

Anghenion newidiol cleientiaid

Cynnal cylchoedd adborth;
Addasu gwasanaethau (e.e., cynhwysiant digidol, llesiant).

Risg rheoleiddio / cydymffurfio Sicrhau bod polisiau yn gyfredol;
hyfforddiant i Ymddiriedolwyr a staff;
goruchwyliaeth gan strwythurau llywodraethu.



YMDDIRIEDOLWYR

*Mae'n Ymddiriedolwyr yn dymuno diolch i'r holl staff, gwinfoddolwyr,
cyllidwyr, partneriaid, a chefnogwyr am eu gwaith caled,
eu hymnoddiaid a'u haelioni yn ystod 2024/25.*

*Heb eu cyfraniadau, ni fyddai llwyddiannau'n
elusen wedi bod yn bosibl.*




Gareth Griffith

Cadeirydd Age Cymru Gwynedd a Môn

Anwen Hughes
Is-gadeirydd

John Pritchard
Trysorydd



Gwilym Ellis Evans
Dafydd Iwan
Alwyn Jones
Cledwyn Williams
Nerys Anne Evans

EFFAITH EIN GWAITH 2024-2025



GWASANAETH CYNGOR A GWYBODAETH

Nifer bobl wedi hawlio cymorth yn llwyddianus ar draws Gwynedd a Môn gwerth £1244,802!



GWASNAETH PRYD YN CARFREF

1300 o Brydau wedi gludo gan sicrhau bod cwsmeriad wedi derbyn bwyd drwy'r gwasanaeth yn brydlon



GWASANAETH GOFAL CARTREF

Darparu gwasanaeth gofal cartref i 440 o gleientiaid.

RHOI CYMORTH I



O BOBL

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cysylltodd 4269 bobl ag Age Cymru Gwynedd a Môn.

Mae ein gwaith yn cael ei gefnogi'n ddiolchgar gan 21 o wirfoddolwyr brwdfrydig sy'n cyfrannu'n amhrisiadwy at gynnal a datblygu ein gwasanaethau ar draws y sir.



GWASANAETH CYNGOR A GWYBODAETH



ASTUDIAETH ACHOS

Cynnigwyd archwiliad budd-dal llawn i'r cleient sawl gwaith, ond gwrthododd gan gredu bod gormod o arbedion ganddi.

Pan gafodd ei gŵr Lwfans Cynnal a Gofal (Attendance Allowance), cynghorwyd y cleient y gallent fod yn gymwys am Gredyd Pensiwn, ond gwrthododd eto ar y dechrau.

Ymwelodd y cynghorydd i gwblhau'r archwiliad budd-dal, a ddangosodd eu bod yn gymwys am Gredyd Pensiwn. Cwblhawyd ceisiadau ar-lein ar gyfer hyn ynghyd a Lwfans Gofalwr, gyda'r Credyd Pensiwn wedi'i ôl-ddatgan am dri mis.

Trefnwyd hefyd i oedi taliad Treth Cyngor.

Cafodd y cwpl Credyd Pensiwn, Lwfans Llawn Treth Gyngor, trwydded deledu am ddim, a buddion eraill cysylltiedig.

Mae'r gwasanaeth ar gael ar draws ardaloedd Gwynedd ac Ynys Môn gyfan er mwyn darparu mynediad i gyngor a gwybodaeth ddi-dduedd am ddim dros y ffôn, wyneb yn wyneb neu ar e-bost.



SUT ALLWN NI HELPŲ?



BETH RYDYM YN EI GYNNIG

Mae'r gwasanaethau rydym ni'n eu cynnig ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Gwiriad budd-dal llawn gan ddefnyddio cyfrifiannell Age UK
- Llenwi ffurflen ar gyfer Lwfans Presenoldeb (ar gyfer buddion eraill nad ydynt yn destun prawf modd, cysylltwch ag un o'r asiantaethau isod i gael cymorth)
- Llenwi ffurflen ar gyfer Bathodynau Glas
- Ceisiadau Credyd Pensiwn ar-lein
- Cyfeirio at y gwasanaeth gwirio ynni cartref
- Rhoi canllawiau gwybodaeth i chi a darparu chynghor ar yr holl fudd-daliadau sydd ar gael.

BUDD-DALIADAU

Toes dim angen i chi fynd ati ar eich pen eich hun. Rydym yma i'ch cefnogi – gallwn eich helpu i lenwi'r ffurflenni a hyd yn oed asesu gyda chi a ydych yn gymwys i gael Bathodyn Glas.

Cysylltwch gyda ni ar 01286 677711 rhwng 9:00am a 4:30pm, neu anfonwch e-bost at benefits@acgm.co.uk

Byddwn yn falch o'ch helpu bob cam o'r ffordd.



BATHODYN GLAS

Os ydych angen cymorth i wneud cais am Fathodyn Glas, rydym yma i helpu.

Gallwn eich tywys trwy'r broses, llenwi'r ffurflenni gyda chi, a chynnig cynghor i weld a ydych yn gymwys.



“

“Mae'r gwasanaeth budd-daliadau wedi galluogi mi wneud cais am fudd-dal anabledd na allwn fod wedi'i wneud ar fy mhen fy hun.”

”



“

Diolch o waelod calon am eich amynedd, eich llais cyfeillgar a'ch geiriau caredig ar y ffon, ac am roi gwasanaeth arbennig iawn sydd wedi bod cymaint o gymorth i mi. Mae'n elusen gwerth chweil!


“

Gair o ddiolch am yr holl help gefais ganddoch drost yr wythnosau diwethaf. Faswn heb fod yn llwyddiannus heb yr help. Dwi mor ddiolchgar a fydd y pres ychwanegol yn achub fy mywyd hefo gwres a trydan.



“

O Mam Bach!
Diolch o waelod calon.
Wedi gwirioni yn lan achos
fy mod wedi cael yr
Attendance Allowance.
Rwyf mor ddiolchgar i chi.



2025

GRANTIAU

Rydym yn ddiolchgar i'r arianwyr sydd
wedi'n cefnogi ni dros y flwyddyn
ddiwethaf er mwyn ein galluogi i gynnig
gwasanaeth i bobl hŷn yng Ngwynedd ac
Ynys Môn





GOFAL Y FELINHELI A NEFYN

Rydym yn darparu gofal yn ardaloedd Y Felinheli a Nefyn.

Credwn yn llwyr ei bod yn hynod bwysig i bobl hŷn gael y cymorth sydd ei angen arnynt i allu aros yn annibynnol.

Mae ein helusen yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn edrych allan am y cleient yn gyntaf.

GOFAL GWYNEDD A MÔN

Rydym yn darparu gwasanaeth siopa, glanhau a gwasanaeth cyfeillio i dros 100 o unigolion ar draws y ddwy Sir.





ESTYN LLAW



Yn ystod y flwyddyn fe gafodd gwasanaeth gofal preifat Gwynedd a Môn enw newydd sef Gwasanaeth ‘Estyn Llaw’.
Rheolwr y gwasanaeth yw Lisa Openshaw.
Lisa sydd yn cydlynnu’r gwasanaeth ar Ynys Môn

ESTYN LLAW YNYS MÔN



“Rwy’f wedi bod yn fy rôl fel Rheolwr Cysylltu Môn ers mis Awst 2024 ac yn mwynhau yn fawr iawn.
Erbyn hyn mae’r nifer cleientiaid ym Môn wedi codi i 60, a’r rhain yn derbyn gwasanaeth eistedd mewn, siopa neu lanhau.
Rwy’f wrth fy modd ac yn cael balchder mawr yn gweld ansawdd bywyd cleient yn gwella am y gorau mond wrth roi help llaw iddynt gyda’i bywyd dyddiol.”

ESTYN LLAW GWYNEDD

Cydlynnydd y gwasanaeth yng Ngwynedd yw Llio Jones.

“Yn fy rôl fel Cydlynnydd Gwasanaeth Lles Gwynedd rwy’f bellach gyda 70 o gleientiaid sydd yn derbyn gwasanaeth siopa, glanhau neu eistedd mewn gennym yng Ngwynedd.
Teimlaf fod y gwasanaeth hwn yn achubiaeth i gymaint o bobl. Efallai mai’r gofawr yw’r bobl cyntaf i’r cleientiaid sgwrsio gydag ers wythnos, felly mae hyn yn elfen bwysig i fywyd sawl cleient, ac rwy’n ymfalchio yn y ffaith mod i’n cydlynu gwasanaeth mor bwysig a hanfodol i bobl, ac wedi gwneud gymaint o ffrindiau newydd ar hyd y ffordd.





Ydych chi'n berson sy'n hoffi helpu eraill?

Rydym yn chwilio am berson
Brwdfrydig i helpu cleientiaid gyda thasgau dyddiol yn eu cartrefi.



Byddai'r Tasgau hyn yn Cynnwys:
Glanhau
Smwddio
Siopa
Prydau Yn y Cartref

Cysylltwch a
Llio Jones



07979 905655



Llio@acgm.co.uk



SWYDDOG GWEITHGAREDDAU

Fi yw Delyth Owen - Swyddog
Gweithgareddau/FFIWS Age Cymru
Gwynedd a Môn.

Dechreuais y Swydd yn Mis Awst 2025. Mae
fy swydd yn cynnwys trefnu gweithgareddau
yma yn Montnewydd a threfnu tripiâu.

Mae gennym ni nifer o weithgareddau
yma ym Montnewydd sy'n digwydd yn
wythnosol fel Celf, Gweu, IT a Chwarae
Cardiau a chreu cardiau.

Bydd gweithgareddau misol fel criw
brodwaith yn ogystal â rhai newydd fel
canu gydag Arfon Wyn a Chardiau gyda
Carol a Cherdded gyda Rhys Mwyn.

Cyn y Nadolig bydd sesiynau gosod
blodau, creu addurniadau bwrdd a
thorchau Nadolig, ynghyd a ffair Nadolig
yma yn Y Cartref.

Mae llawer o ddigwyddiadau ar y gweill
ar gyfer 2025, ac edrychaf ymlaen at
drefnu mwy a chyfarfod wynebau
newydd!

Delyth x

GWEITHGAREDDAU



**LLUN
MONDAY**



 1.30
yp/pm

WHIST & DOMINOS

**MAWRTH
TUESDAY**

**CLWB CELF
ART CLUB**

 10.00 &
2.00YP/PM



**DOSBARTH CYFRIFIADURON
IT CLASSES**

 10.YB/AM



**MERCHER
WEDNESDAY**

**CLWB CARDIAU
CARD MAKING CLUB**

 10.00

 1.00


**MEDDWLGARWCH
MINDFULNESS**

**IAU
THURSDAY**

**CLWB GWAU
KNITTING CLUB**



 10.00
YB/AM



Gofod gwneud yw Ffiws, sy'n cynnig man cymunedol i greu, trwsio ac ailddefnyddio! Mae'r gofod yn cynnwys amrywiaeth o offer gallwch eu defnyddio fel:

Argraffydd Sychdarthu
Gwasg Mwg
Gwasg Gwres
Peiriant Torri Fynyl
Peiriant CNC

Mae'r dechnoleg sydd ar gael yn Ffiws yn ein galluogi i ddatblygu cynnyrch a syniadau newydd, dylunio neu frandio busnes, neu weithio'n greadigol am hwyl!

Mae Ffiws yn adnodd i'r gymuned ac yn croesawu pawb:

Gwneuthurwyr profiadol, pobl ifanc, grwpiau, a'r rhai sydd heb brofiad blaenorol ond fyddai'n hoffi dysgu mwy.



Yn FFIWS, gallwn gyd-ddysgu a rhannu syniadau, yn y gobaith o ysgogi sbarc creadigol!

Cadwch lygad allan am ein gweithgareddau FFIWS trwy ein cyfryngau cymdeithasol ag yn y Cartref

GWASANAETH PRYD AR GLUD

Yn ystod 2024–25 darparodd ein gwasanaeth Prydau yn y Cartref dros 1,300 o brydau poeth i gwsmeriaid ledled Gwynedd a Môn.

Mae'r gwasanaeth yn hynod boblogaidd oherwydd ansawdd y bwyd, a'n dosbarthiadau dyddiol sy'n cefnogi pobl fregus – yn enwedig y rhai sy'n derbyn pecyn gofal ac yn ei chael yn anodd siopa neu goginio pryd yn y cartref.

Nid gwasanaeth dosbarthu yn unig yw hwn: mae'n gysur i deuluoedd wybod bod eu hanwyliaid yn derbyn pryd maethlon ac yn cael rhywun i'w gwirio'n ddyddiol.

Os hoffech gael bwydlen fisol, cysylltwch â'n derbynnydd cyfeillgar
Bethan: 01286 685926
bethan.davies@acgm.co.uk



**BWYD IACHUS AM YR WYTHNOS
HEALTHY MEALS FOR THE WEEK**



“

Rydych chi'n darparu gwasanaeth rhagorol.

Diolch am y gwasanaeth rydych chi'n ei ddarparu - prydau maethlon iawn - sylweddol ac o ansawdd / cynnyrch da.

Diolch yn fawr.

”



Clwb Cinio Heneiddio'n Dda - Dolgellau

Diwrnodiau Lles GWYNEDD

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd Diwrnodiau Lles a Gwybodaeth ar draws Gwynedd i ddod â phobl hŷn ynghyd i rannu gwybodaeth, cymorth a chwmnïaeth.

Trwy gydweithio ag ystod eang o sefydliadau a phartneriaid cymunedol, rydym wedi gallu darparu gwybodaeth werthfawr ac ymarferol i bobl hŷn yn ein cymunedau, gan eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus a theimlo'n fwy hyderus yn eu bywydau bob dydd.



Cwis,
Paned
a Sgwrs
Bala



Bingo Nadolig
Dolgellau



Prawn Pampro -
Coleg Meirion Dwyfor



Sessiwn Galw Mewn gyda PC Paula - Aberdyfi



Yoga Cadair

Yn ogystal â rhannu gwybodaeth, roedd y digwyddiadau'n ffordd wych o leihau unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol — gan greu cyfleoedd i bobl gwrdd, sgwrsio ac adeiladu cysylltiadau newydd.

Mae'r gwaith hwn yn rhan hanfodol o'n hymrwymiad parhaus i greu cyfleoedd i bobl hŷn yng Ngwynedd, gan sicrhau eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu clywed, a'u cynnwys ym mywyd cymunedol eu hardal.

Sgws a Phaned - Bore Coffi Mc Millan



Croesawu Rhian Bowen Davies, Comisiynydd Pobl Hyn





Canolfan Gymunedol Noddfa

Rydym ni wedi bod yn cydweithio gyda Chanolfan Noddfa, Caernarfon ers Hydref 2022 i ddarparu a danfon prydau poeth i'r Ganolfan bob yn ail ddydd iau.

Mae dros 20 o drigolion lleol yn gallu manteisio ar ginio dau gwrs drwy'r fenter Lleoedd Cynnes sy'n cael ei chynnig yn y Ganolfan.

Rydyn ni'n hynod ddiolchgar am y cyfle hwn i weithio gyda'n gilydd a pharatoi prydau maethlon i drigolion yr ardal.

Ers dechrau'r fenter hon, rydyn ni wedi darparu dros 300 o brydau bwyd.

Heneiddio'n iach trwy Weithgareddau Cymunedol

Dyma lun o Bet Huws, Swyddog Prosiect Dehongli ac Ymgysylltu Cymunedol LleCHI LleNI, wedi'i darlunio gyda thîm Brodio Bont sydd newydd gwblhau panel arbennig i ddathlu Tirwedd Treftadaeth Lechi Gogledd-orllewin Cymru – Safle Treftadaeth y Byd.

Mae'r grŵp creadigol hwn yn un o'r grwpiau sydd yn cwrdd bob mis yn Age Cymru Gwynedd a Môn, Bontnewydd, ac maent eisoes wedi creu paneli trawiadol ar gyfer Llys Llywelyn, Castell Caernarfon (Cadw) a'r Amgueddfa Lechi Cenedlaethol.



P'nawn gyda...

Cawsom gyfres o brynhawniau hamddenol a chynnes gyda awduron ysbrydoledig o Gymru, gan gynnwys:

- Myrddin ap Dafydd
- Rhian Cadwaladr
- Geraint Lovegreen
- Osian Owen



Ni fu'r digwyddiadau hyn yn ddifyr yn unig, ond fe wnaethant hefyd ysgogi creadigrwydd a hyrwyddo sgwrsio ymhlith pob mynychwr, gan eu gwneud yn agwedd werthfawr o'n rhaglen gymunedol.

Rydym yn estyn ein diolch i Wasg Carreg Gwalch am drefnu digwyddiadau mor rhagorol



Gwasg Carreg
Gwalch



EIN SWYDDOGION AR YNYS MÔN

Nia Jones, Swyddog Llës a Chysylltu Môn

Rhan o fy rôl fel Swyddog Cysylltu yw codi ymwybyddiaeth a chynnig gwybodaeth i bobl yr Ynys am weithgareddau ac adnoddau cefnogi/ataliol sydd ar gael yn y gymuned leol. Byddaf yn cydweithio gyda'r gymuned, mudiadau trydydd sector, cynghorau lleol a phartneriaid yn wythnosol. Yn fy rôl byddaf yn cydweithio gyda Chydlynnydd Gofal Preifat Môn drwy ymweld â thai cleientiaid ar yr Ynys i'w helpu gyda gwaith papur neu unrhyw fater y byddent angen help gyda gan yr elusen.



Alwen Watkin, Swyddog Hybiau Ynys Môn

Mae bob tro croeso cynnes i unrhyw un a fyddai'n dymuno ymuno yn yr hwyl mewn unrhyw glwb.

Bellach mae gennym hybiau ym Mrynsiencyn, Llanddona, Amlwch, Llangoed, Biwmares, Llanfechell, Niwbwrch, Fali, Gwalchmai, Bodffordd, Benllech a Moelfre. Rydym wedi cynnal sawl sesiwn/digwyddiad dosbarthiadau yn yr hybiau hyn gan gynnwys sesiynnau Technoleg Gwybodaeth



DIOLCH I'N GWIRFODDOLWYR

MAE EIN GWIRFODDOLWYR YN ASGWRN CEFN YR ELUSEN, AC NI FYDDEM YN GALLU CYNNIG EIN GWASANAETHAU HEB EU HYMRODDIAD A'U GWAITH CALED.

Mae'r amser, yr egni a'r brwdfrydedd maent yn eu rhoi yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n cymuned leol. Mae denu gwirfoddolwyr newydd yn gallu bod yn heriol, yn enwedig wrth i bawb geisio cydbwyso gwaith, teulu ac ymrwymadau eraill, ond rydym yn hynod ddiolchgar i'r rhai sy'n dewis rhoi o'u hamser i'n cefnogi.

Mae Meirion Jones yn un o'n gwirfoddolwyr mwyaf profiadol ac ymroddedig. Mae'n rhoi llawer o'i amser bob wythnos i dorri'r gwair, cadw'r lle'n dachus, peintio'r adeilad pan fo angen, ac yn helpu gyda dosbarthu prydau bwyd i gartrefi ar adegau. Mae ei waith caled a'i ymroddiad yn sicrhau bod yr adeilad yn lle croesawgar ac yn lân i bawb sy'n galw heibio.

Mae pob gwirfoddolwr, boed yn hen law neu'n newydd, yn chwarae rhan hanfodol yn llwyddiant yr elusen. Hebddynt, ni fyddai'n bosibl darparu'r gwasanaethau a'r cymorth rydym yn eu cynnig i'n cymuned.





FFYRDD I GYFRANNU



CODI ARIAN

Gallwch godi arian yn eich cymuned fel y gallwn helpu'r bobl hyn yn eich cymuned chwi



RHODDION

Gellir Cyfrannu rhoddion ariannol dros y ffôn neu drwy ysgrifennu siec yn daladwy i 'Age Cymru Gwynedd a Môn'



RHODD MEWN EWYLLYS

Drwy adael rhodd mewn ewylllys byddai hyn yn ein galluogi i fod yno i bobl

Staff 2024-25

PRIF SWYDDOG

Caryl Jones

RHEOLWR GOFAL CARTREF

Nia Williams

CYNGOR A GWYBODAETH

Ann Parry (Rheolwr)

Mandy Parry

PERSONEL A RHEOLWRAIG SWYDDFA

Eleri Lovell Jones

CYDLYNYDD GWASANAETHAU CYMUNEDOL

Lisa Openshaw (Ynys Môn)

Llio Jones (Gwynedd)

RHEOLWR CAFFI

Sheila Lambrecht (Y Cartref)

Meryl Williams

(Hafan, hyd at Ragfyr 2024)

CYSYLLTWYR CYMUNEDOL

Nia Jones (Gwynedd a Môn)

Bethan Wyn Roberts (Cysylltwr Gwynedd)

SWYDDOG HYBIAU YNYS MÔN

Alwen Watkins

ARIANNOL

Megan Lyn Owen



Ein Gwasanaethau

Cyngor a Gwybodaeth

Cyngor Budd-daliadau

Heneiddio'n Dda

Clwb Cinio

Gwasanaeth Eistedd Fewn

Cyswllt Digidol (TG)

Fforymau

Gwasanaeth Caffi

Gofal Personol

Gwasanaeth Glanhau

Cynllun Siopa Gwynedd

Gwirfoddoli

Pryd yn y Cartref

Agweddau Cymunedol Gwynedd

ac Ynys Môn

Bancwyr
HSBC
24 Castle Square
Caernarfon

Broceriaid
Canaccord Genuity Wealth Limited
Llundain

Cyfrifwyr
A Hughes-Jones Dyson & Co
Chartered Accountants
Capel Moreia
South Penrallt
Caernarfon

Cyfreithwyr
Parry Davies Clwyd-Jones and Lloyd
Bangor Street
Caernarfon

